Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei argraffu i gywiro gwallau yn O.S. 2024/797 (Cy. 126) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 230 (Cy. 49)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) (Diwygio) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwallau yn Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024").

Mae Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol.

Mae Rhan 2 yn cynnwys y diwygiadau cywiro i Reoliadau 2024.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei argraffu i gywiro gwallau yn O.S. 2024/797 (Cy. 126) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif 230 (Cy. 49)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Chwefror 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *28 Chwefror 2025* |
| *Yn dod i rym* | *21 Mawrth 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 8A(7) o Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Rhagarweiniol

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 21 Mawrth 2025.

(**1**) 1995 p. 8. Mewnosodwyd adran 8A gan adran 24(4) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 2

### Diwygio Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y testun Cymraeg, ar ddiwedd paragraff (f) yn y diffiniad o "cymorth ariannol perthnasol", mewnosoder "neu";

(b) ym mharagraff (c) yn y diffiniad o "dyletswydd statudol", yn lle "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir" rhodder "deddfwriaeth uniongyrchol a gymhathwyd".

(3) Yn rheoliad 3 (cais am gydsyniad y landlord neu amrywio telerau), ym mharagraff (8), yn lle "2 fis" rhodder "4 mis".

(4) Yn rheoliad 4 (dyfarniadau neu benderfyniadau gan y cymrodeddwr), ym mharagraff (2)(d), ar ôl "dyfarniad" mewnosoder "neu'r penderfyniad".

*Huw Irranca-Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
27 Chwefror 2025

(**1**) O.S. 2024/797 (Cy. 126).